Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

National Assembly for Wales
Business Committee

Simon Thomas
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Gorffennaf 2017

Annwyl Simon

**Amserlen Cyllideb 2018-19**

Fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 20.2, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cael ei hysbysu'n ffurfiol bod y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi'r cynigion amlinellol ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 ar 3 Hydref, a'r cynigion manwl ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19 ar 24 Hydref. Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio barn y Pwyllgor Cyllid ynghylch y dyddiad cau arfaethedig i chi gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft, yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 20.4.

Wrth benderfynu ar y dyddiad cau hwn, mae Rheol Sefydlog 20.5(i) yn datgan bod yn rhaid i'r Pwyllgor Cyllid fel arfer gael wyth wythnos i adrodd ar gynigion y gyllideb amlinellol, tra bod Rheol Sefydlog 20.5(ii) yn ei gwneud yn ofynnol bod gan bwyllgorau eraill o leiaf bump wythnos i ystyried y cynigion cyllideb manwl, o fewn yr amserlen a osodwyd gan y dyddiadau uchod yr hysbysodd y Llywodraeth ni yn eu cylch.

Awgrymodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn bwriadu trefnu dadl ar y gyllideb ddrafft ddydd Mawrth 5 Rhagfyr. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill gyflwyno adroddiadau erbyn dydd Mawrth 28 Tachwedd 2017. Dywedodd y Gweinidog hefyd, er mwyn rhoi sicrwydd cynnar i bartneriaid darparu a rhanddeiliaid ac, er mwyn caniatáu ar gyfer y cyfnod estynedig ar gyfer craffu a chyhoeddi cyn y Nadolig, y bydd angen cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol yn ystod y toriad, ar ddydd Mawrth 19 Rhagfyr.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech fynegi barn ynghylch yr amserlen arfaethedig cyn gynted ag y bo modd, fel y gall y Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r amserlen ar gyfer trafod y gyllideb yn fuan ar ôl toriad yr haf.

Yn gywir

Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes